# Crynodeb Gweithredol o'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae *(2025):* Y sefyllfa yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

## 1. Datganiad Cryno gan yr Awdurdod Lleol [uchafswm o 1,500 o eiriau]

*Defnyddiwch yr adran hon i rannu crynodeb o'r weledigaeth, y prif ganlyniadau sy'n deillio o'r asesiad digonolrwydd cyfleoedd chwarae a'r camau gweithredu arfaethedig i sicrhau digonolrwydd yn ardal yr awdurdod lleol.*

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT) wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd sy'n annog chwarae ac yn cefnogi datblygiad cyfannol plant a phobl ifanc. Mae CBSMT yn cydnabod bod chwarae yn hawl sylfaenol ac yn elfen hollbwysig o lesiant, felly mae'r Cyngor wedi cynnal Asesiad cynhwysfawr o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae er mwyn gwerthuso sefyllfa'r ddarpariaeth chwarae gyfredol a nodi meysydd allweddol y mae angen eu gwella. Bydd yr asesiad hwn yn sylfaen ar gyfer dull strategol o wella cyfleoedd chwarae a sicrhau bod modd i bob plentyn, beth bynnag fo'u cefndir a'u gallu, gymryd rhan mewn profiadau chwarae ystyrlon.

Y weledigaeth ar gyfer chwarae ym Merthyr Tudful yw creu cymuned lle caiff pob plentyn y lle, yr amser a'r anogaeth i chwarae'n rhydd mewn amgylcheddau diogel ac ysgogol. Nod y cyngor yw datblygu a chynnal mannau chwarae o ansawdd uchel, cefnogi amrywiaeth o fentrau chwarae, a sicrhau bod chwarae yn parhau i fod yn rhan ganolog o fywyd pob dydd plant a phobl ifanc. Cefnogir y weledigaeth hon gan ymrwymiad i fod yn gynhwysol, yn gynaliadwy ac i ymgysylltu â'r gymuned.

Mae'r Asesiad wedi amlygu nifer o heriau pwysig y mae angen rhoi sylw iddynt. Un o'r canfyddiadau mwyaf arwyddocaol yw'r rhwystrau i gyfranogi mewn chwarae, o safbwynt hygyrchedd oherwydd anableddau corfforol, anghenion dysgu ychwanegol

(ADY) a thrafnidiaeth, neu o safbwynt problemau ariannol am fod cost gweithgareddau chwarae'n rhy uchel.

Bydd ymgysylltu â'r gymuned yn ganolog wrth lywio dyfodol y ddarpariaeth chwarae ym Merthyr Tudful. Bydd rhieni, gofalwyr a phlant yn cyfrannu'n benodol at gynllunio a datblygu cyfleoedd chwarae er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn adlewyrchu eu hanghenion a'u dewisiadau. Bydd ymgyrchoedd cynyddu ymwybyddiaeth yn amlygu pwysigrwydd chwarae, gan annog mwy o gyfranogiad a meithrin diwylliant sy'n deall bod chwarae yn rhan hanfodol o blentyndod.

Bydd monitro a gwerthuso yn rhan annatod o ddull y cyngor o ymdrin â digonolrwydd cyfleoedd chwarae, gydag asesiadau rheolaidd yn cael eu cynnal i olrhain cynnydd, casglu adborth ac addasu darpariaethau chwarae yn ôl yr angen. Bydd hynny'n sicrhau bod cyfleoedd chwarae yn parhau i esblygu ac i ymateb i anghenion y gymuned.

**Proffil Demograffig**

O ran poblogaeth, dengys canfyddiadau demograffig y gwaith ymchwil fod y crynodiadau uchaf o blant 0-4 oed mewn wardiau megis Cyfarthfa, y Dref, a Gurnos, felly bydd mwy o angen am wasanaethau plentyndod cynnar hygyrch, gan gynnwys meithrinfeydd a chyfleusterau chwarae, yn yr ardaloedd hyn. Ond mae nifer sylweddol lai o blant yn yr ystod oedran hon mewn wardiau megis Vaynor, Parc ac Ynysowen, sy'n awgrymu bod y galw am ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn is ond yn dal yn bwysig.

O ran plant 5–14 oed, dengys y data fod y wardiau â'r poblogaethau mwyaf mewn ardaloedd megis Cyfarthfa, y Dref, a Gurnos, sy'n awgrymu eto bod angen buddsoddi'n sylweddol mewn meysydd chwarae, caeau chwarae a chanolfannau gweithgareddau ieuenctid yn yr ardaloedd hyn. Mewn wardiau fel Vaynor, Parc, ac Ynysowen, mae poblogaethau'r ystod oedran hon yn llawer llai, sy'n rhagdybio bod galw is ond pwysig o hyd am ddarpariaethau chwarae a hamdden oed-briodol.

Mae'r rhagolygon ar gyfer 2026 yn dangos newid mewn demograffeg oedran, gyda gostyngiad yn y carfanau iau a thwf yn y grwpiau hŷn. Disgwylir i nifer y plant oedran cynradd leihau, yn enwedig yn yr ystod oedran 8-11, lle rhagwelir y bydd 563 yn llai o blant. Fodd bynnag, disgwylir i'r boblogaeth 12-18 oed gynyddu'n sylweddol o 12,764 yn 2020 i 13,855 yn 2026. Mae'r duedd hon yn dangos y bydd angen

cyfleusterau oedran ysgol uwchradd, mannau hamdden ar gyfer ieuenctid a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar arddegwyr yn y blynyddoedd sy'n dod.
Dylid nodi bod ardal Merthyr Tudful yn adlewyrchu patrwm a welir ledled y Deyrnas Unedig lle mae cyfraddau geni yn gostwng yn gyffredinol, a gallai hynny effeithio ar y galw am wasanaethau plentyndod cynnar a chofrestrau ysgolion cynradd yn y dyfodol.

**Camau Gweithredu i Sicrhau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae**

Mae'r camau gweithredu i sicrhau digonolrwydd cyfleoedd chwarae yn canolbwyntio ar gynyddu hygyrchedd, diogelwch a chynwysoldeb cyfleoedd chwarae ar draws y fwrdeistref. Mae hyn yn cynnwys bod CBSMT yn parhau i gefnogi darpariaethau chwarae am ddim a chost isel, a'u helaethu o bosibl, mewn ardaloedd dan anfantais economaidd, yn lleihau amseroedd aros ar gyfer clybiau gweithgareddau chwarae, ac yn datblygu mentrau a arweinir gan y gymuned mewn ardaloedd gwledig er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn fynediad at fannau chwarae ffurfiol ac anffurfiol. Nodwyd ymdrechion i wella diogelwch a allai gynnwys gosod rhagor o finiau i leihau gollwng sbwriel, gwell goleuo mewn mannau chwarae, a rhoi mentrau cymunedol ar waith megis rhaglenni gwarchod cymdogaeth. I gefnogi chwarae cynhwysol, mae creu strategaethau ar gyfer plant ethnig leiafrifol, plant niwroamrywiol, a phobl ifanc LHDTC+ yn flaenoriaeth yn y cynllun, ynghyd â chynyddu cyfleoedd hamdden penodol i ferched yn eu harddegau. Cryfheir y ddarpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth trwy sicrhau bod gan weithwyr chwarae fynediad at hyfforddiant fforddiadwy a chynnig mwy o weithgareddau chwaraeon, hamdden a chelfyddydau cost isel. Mae mesurau polisi ac eiriolaeth yn cynnwys diweddaru asesiadau risg, gwell ymgysylltiad â'r cyfryngau er mwyn cynnig darlun cadarnhaol o chwarae plant, ac adolygu dogfennau swyddogol megis yr Asesiad Mannau Agored er mwyn cadw gwybodaeth fanwl gywir a chyfredol am fannau chwarae.

## 2. Methodoleg [hyd at 1,000 o eiriau]

*Defnyddiwch yr adran hon i drafod:*

- *Sut y cynhaliwyd a chytunwyd ar yr Asesiad*
- *Pa adrannau/meysydd polisi'r awdurdod lleol oedd yn rhan o hyn a sut*
- *Pa bartneriaid allanol oedd yn gysylltiedig a sut*

Comisiynodd CBSMT Premier Advisory Group (PAG) i gwblhau’r Asesiad hwn. Er mwyn sicrhau bod PAG yn bodloni gofynion manyleb Asesiad y Cyngor, defnyddiwyd methodoleg fanwl o ddulliau cymysg a oedd yn cynnwys casglu a dadansoddi data ansoddol a meintiol sylfaenol ac eilaidd. Y thema arweiniol wrth gasglu a dadansoddi data oedd gwrando ar bob llais, felly ategwyd y gwaith ymchwil wrth ddesg gan arolygon plant a phobl ifanc (PPI), rhieni/gofalwyr a darparwyr/gweithwyr, rhanddeiliaid eraill, ynghyd ag arsylwi ar chwarae, cyfweliadau 1:1 â gweithwyr chwarae, a grwpiau ffocws gyda rhieni a phlant.

Cynhaliwyd y gwaith maes a’r gwaith ymchwil i lywio Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Cyngor Bwrdeistref Siriol Merthyr Tudful rhwng mis Medi 2024 a mis Mawrth 2025. Cynhaliwyd mathau lluosog o waith ymchwil a dadansoddi, a oedd yn cynnwys:

- Gwaith ymchwil strwythuredig wrth ddesg
- Cyfweliadau Ffôn â Chymorth Cyfrifiadur (CATI) gydag arweinwyr darpariaethau chwarae
- Holiadur Survey Monkey Ar-lein gyda darparwyr a gweithwyr chwarae
- Holiadur Survey Monkey Ar-lein gyda rhieni/gofalwyr
- Holiadur Survey Monkey Ar-lein gyda disgyblion Dysgu Sylfaen a CA2
- Holiadur Survey Monkey Ar-lein gyda disgyblion CA3 a CA4
- Holiadur Survey Monkey Ar-lein gyda rhanddeiliaid allweddol eraill
- Pedwar grŵp ffocws gyda rhieni/gofalwyr, sef dau oedd yn agored i bob rhiant/gofalwr a dau oedd yn agored i rieni/ofalwyr plant ag ADY
- Dau grŵp ffocws gyda PPI, sef un ar gyfer plant oed cynradd ac un ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd
- Arsylwi chwarae yn ystod Gŵyl Chwarae CBSMT 2024.

Amlinellir y fethodoleg isod:

Casglwyd data hefyd trwy waith ymchwil wrth ddesg gan ddefnyddio ffynonellau data eilaidd i fapio'r galw am gyfleoedd chwarae a nifer y plant a'r bobl ifanc ar draws yr awdurdod lleol (ALl). Canolbwyntiai'r gwaith ymchwil ar amcanestyniadau poblogaeth, mudo a nifer y grwpiau allweddol, er mwyn mapio'r galw cyfredol a disgwyliedig am gyfleoedd chwarae. Gwnaed ymdrech ar y cyd i gasglu'r data diweddaraf posibl o'r ffynhonnell fwyaf priodol a rhoddwyd sylw dyledus i amserlenni rhyddhau'r data mwyaf perthnasol. Gan hynny, cyrchwyd data yn bennaf o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, a'i ategu a'i gefnogi gan ddata'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), y Cyfrifiad Cenedlaethol, Cyllid a Thollau EF, a'r Asesiad Llesiant Lleol.

Wedi'r gwaith dadansoddi data wrth ddesg, ymgynghorodd PAG ag ystod o grwpiau allweddol, gan gynnwys PPI 0-17 oed, rhieni/gofalwyr ar draws ardal Merthyr Tudful, a gweithwyr chwarae sy'n gweithio i amrywiaeth o ddarpariaethau.

Lluniwyd arolygon ar-lein addas i blant, i'w cwblhau gan PPI 5-17 oed; dosbarthwyd arolwg ar-lein i blant dan 5 oed hefyd. Er mwyn casglu data'r plant a'r bobl ifanc yn effeithiol, dosbarthodd PAG a CBSMT yr arolygon i ysgolion a meithrinfeydd, gyda briffiad llawn. Yn ogystal, bu Julia Lewis, Swyddog Chwarae CBSMT yn hyrwyddo'r arolygon mewn cyfarfodydd penaethiaid ysgol. Lluniwyd pum arolwg unigol a'u dosbarthu i'r oedrannau perthnasol, gan gynnwys arolwg i blant dan 5 oed (4 ymateb), arolwg Dysgu Sylfaen (19 ymateb), arolwg CA2 (40 ymateb), arolwg CA3/4 (91 ymateb) ac arolwg ychwanegol hygyrch i blant o bob oedran ag ADY (8 ymateb). Roedd modd dewis cwblhau'r arolygon dan 5 a Dysgu Sylfaen yn unigol neu mewn grŵp, gyda'r athrawes, y gofalwr neu'r rhiant yn eu llenwi. Cwblhawyd arolygon CA2 a CA3/4 yn annibynnol gan y plant.

Cafodd arolwg ar-lein byr, gwirfoddol a dienw ei rannu â rhieni/gofalwyr ar draws ardal Merthyr Tudful, i gael eu canfyddiad o fwynhad plant wrth chwarae, ochr yn ochr â'u diogelwch a'u mynediad at gyfleoedd chwarae. Ymatebodd nifer aruthrol, 469 o rieni/ofalwyr, i'r arolwg.

I ategu data'r arolygon, cwblhawyd ymgyngoriadau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Roedd ymgynghoriad ar-lein PAG yn cynnwys dau grŵp ffocws ar gyfer yr holl rieni/ofalwyr a dau grŵp ffocws ar gyfer rhieni/gofalwyr plant ag ADY. Roedd ymgynghoriad wyneb yn wyneb PAG yn cynnwys grŵp ffocws gyda phlant oed

cynradd a sesiwn cyfweliadau galw heibio gyda phobl ifanc mewn canolfan ieuenctid. Yn ogystal, bu PAG yn bresennol mewn dwy ŵyl chwarae, sef un ar gyfer plant 7-13 oed ac un ar gyfer rhai 0-7 oed, lle cynhaliwyd cyfweliadau byr gyda phlant, rhieni, a gweithwyr chwarae, yn ogystal ag arsylwi'r darpariaethau a fynychwyd. Roedd presenoldeb PAG yn caniatáu trafodaeth anffurfiol ond ystyrlon gyda theuluoedd, gan hyrwyddo gwell dealltwriaeth o gyfleoedd chwarae trwy brofiadau'r gwahanol grwpiau oedran. Drwy arsylwi plant yn ymwneud â gweithgareddau chwarae, cafwyd data gwerthfawr i asesu patrymau ymgysylltu â gweithgareddau, pa ddewisiadau chwarae addas sydd ar gael, ac unrhyw rwystrau rhag cyfranogi.

I ategu ein hymgynghoriad â PPI, rhieni/gofalwyr a darparwyr chwarae, ymgynghorwyd ag amrywiaeth o randdeiliaid trwy arolwg byr, gwirfoddol ar-lein. Casglodd yr arolwg farn rhanddeiliaid ar y cyfleoedd chwarae sydd eisoes yn bodoli a'r mynediad i gyfleusterau chwarae. Ymatebodd 50 o bobl i'r arolwg hwn, a luniwyd i gasglu barn rhanddeiliaid eraill, megis preswylwyr lleol, cyflogeion/perchenogion busnesau lleol, athrawon/arweinwyr a llywodraethwyr ysgol.

Llywiwyd a chydgysylltwyd yr Asesiad hwn trwy gydweithrediad cadarn rhwng adrannau'r Cyngor. Ymhlith yr adrannau a gymerodd ran roedd Llesiant Cymunedol, Addysg, y Gwasanaethau Ieuenctid, Parciau a Hamdden, Cynllunio a Chefn Gwlad, Gwasanaethau i Deuluoedd, Rheoli Ystadau, Priffyrdd a Rheoli Traffig a Chydlyniant Cymunedol. Cyfrannodd pob un ohonynt gipolygon ac arbenigedd yn gysylltiedig â'u maes gwasanaeth. Ar ben hynny, ymgysylltodd yr Asesiad â'r tîm Iechyd Cyhoeddus, i gyd-fynd â strategaethau iechyd a llesiant, Merthyr Egnïol a rhaglenni Teithio Llesol, gan sicrhau sylw i weithgarwch corfforol ac ystyriaethau mynediad.

Wedi cwblhau'r ymgynghori a'r gwaith cydgysylltu mewnol, casglwyd data a'i ddadansoddi i roi darlun cyffredinol o sefyllfa chwarae ym Merthyr Tudful, ac ysgrifennwyd crynodeb o'r canfyddiadau ynghylch digonolrwydd cyfleoedd chwarae. Bydd bodloni gofynion y Cynllun Gweithredu yn brif eitem ar agenda adolygiad tymhorol y Tîm Chwarae. Rhennir yr Asesiad a'r Cynllun Gweithredu â'r Cabinet ym mis Mehefin 2025 a'r Grŵp Strategaeth Chwarae fydd yn delio ag unrhyw geisiadau am newidiadau.

Ar sail hynny, mae PAG wedi darparu argymhellion ynghylch sut gall yr ALI roi sylw i’r bylchau yn y cyflenwad a’r galw. Bydd PAG a’r Cyngor yn defnyddio’r dadansoddiad a’r canfyddiadau i lunio Cynllun Gweithredu drafft manwl gyda chostau, y gall yr awdurdod ei gyflwyno ar unwaith.

## 3. Sut mae’r ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae [uchafswm 2,000 o eiriau]

*Defnyddiwch yr adran hon i drafod:*

- *Sut y casglwyd barn plant a theuluoedd*
- *Sut mae'r wybodaeth hon wedi cael ei defnyddio i asesu yn erbyn pob mater yn y dadansoddiad themâu isod*
- *Sut y cafodd ei ddefnyddio i lywio'r Cynllun Gweithredu Chwarae*

**Casglu barn plant a theuluoedd**

Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau ymgynghori i gasglu barn. Roedd arolygon y gwahanol grwpiau oedran ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Casglwyd ymatebion plant dan bump oed trwy sesiynau un-i-un a grwpiau mewn cyd-destunau gofal plant. Cyfrannodd y plant Dysgu Sylfaen trwy arolygon grŵp o dan arweiniad athrawon, i gasglu cipolygon o’r ystafell ddosbarth, tra aeth disgyblion CA2 ati i gwblhau arolygon yn annibynnol yn yr ysgol neu fel gwaith cartref. Cymerodd disgyblion CA3 a CA4 ran mewn arolygon ar-lein. O ran hygyrchedd, sicrhawyd bod modd i blant ag ADY a phlant o gefndiroedd amrywiol gymryd rhan. Gan fod y data demograffig ynghylch y Gymraeg ym Merthyr Tudful yn dangos bod 21.4% o’r boblogaeth tair oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg, lluniwyd arolygon dwyieithog er mwyn sicrhau cynwysoldeb wrth gynllunio darpariaeth chwarae. Ymgynghorwyd â rhieni a gofalwyr trwy arolygon ynghylch cyfleoedd chwarae a rhwystrau. Cynigiodd grwpiau ffocws â phlant o bob oedran gipolygon ychwanegol ar brofiadau, dewisiadau a chyfyngiadau chwarae.

**Data demograffig**

Cyn ymgynghori ar Asesiad 2025, cynhaliwyd gwaith ymchwil gan ddefnyddio ffynonellau cyhoeddus i bennu’r manylion demograffig a sosio-economaidd sylfaenol. Llywiwyd y dull ymgynghori a Mater A gan y data hwn. Erbyn canol 2022, roedd tua

9,427 o blant yn byw ym Merthyr Tudful (ONS, Mawrth 2024): roedd 1,200 ohonynt yn 0-1 oed, 640 yn 2 oed, 1,347 yn 3-4 oed, 2,232 yn 5-7 oed, 2,910 yn 8-11 oed, a 1,098 yn 12-14 oed, gyda chrynodiadau nodedig yn ardaloedd Cyfarthfa, y Dref, a Gurnos. Rhagwelir y bydd y boblogaeth 0–18 oed yn cynyddu ychydig o 34,129 yn 2020 i 34,347 yn 2026, wedi'i sbarduno gan dwf yn y niferoedd 12–18 oed, wrth i grwpiau iau leihau. Mae hyn yn amlygu'r angen am fuddsoddi mewn cyfleusterau i arddegwyr ochr yn ochr ag addasu'r darpariaethau blynyddoedd cynnar a chwarae cynradd.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 97.1% o boblogaeth Merthyr Tudful yn "Wyn", i lawr o 97.6% yn 2011. Gwelwyd twf yn y categori "Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, neu Asiaidd Cymreig" o 1.2% i 1.5%. Roedd grwpiau ethnig eraill, gan gynnwys "Cymysg neu Luosog" a "Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd," yn gyfrannau llai.

Llanwyd arolwg ar-lein dienw, oedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan 50 o randdeiliaid ym Merthyr Tudful. Gofynnai'r cwestiwn cyntaf am rolau'r rhanddeiliaid. Roedd 54% yn drigolion lleol, roedd 28% yn weithwyr llywodraeth leol, roedd 12% yn "Eraill," roedd 4% yn aelodau neu'n ymddiriedolwyr elusennau cysylltiedig â chwarae (gan gynnwys yr unig un i ymateb yn Gymraeg), ac roedd 2% yn gweithio i sefydliadau addysgol.

**Canfyddiadau**

Yn ystod Gŵyl Chwarae Awst 2024, amlygodd adborth y gweithwyr chwarae bwysigrwydd chwarae dan do gyda nifer da o staff. Pêl-droed oedd fwyaf poblogaidd, ond roedd derbyniad da i'r holl weithgareddau, tennis bwrdd, Swingball, a chastell sboncio. Roedd y lleoliad helaeth dan oruchwyliaeth yn caniatáu i'r plant gylchdroi bob 15 munud. Nododd y gweithwyr chwarae heriau o ran cofrestru gydag AGC ond cydnabuwyd y manteision megis amrywiaeth ehangach o weithgareddau, oriau estynedig a chymhwysedd ar gyfer grantiau. Serch hynny, roedd pryderon ynghylch cyllid yn cynnwys codiadau cyflog heb gyllid cyfatebol, sy'n bygwth cynaliadwyedd chwarae dan oruchwyliaeth.

Mae poblogrwydd clybiau ieuenctid a gweithgareddau grŵp yn tanlinellu gwerth chwarae cymdeithasol a buddsoddi mewn darpariaeth dan oruchwyliaeth, megis canolfannau ieuenctid sydd â staff. Mae'r pwyslais ar chwarae awyr agored, gan gynnwys ysgolion coedwig a phadiau sblasio, yn amlygu'r angen am fannau

creadigol, cynhwysol ar gyfer chwarae byrfyfyr. Nododd y gweithwyr chwarae fod cyfleusterau'n hygyrch i blant ag ADY ac roedd adborth y rhieni ynghylch ansawdd a chynwysoldeb yn gadarnhaol.

Roedd y rhieni a'r gofalwyr yn fodlon iawn ar yr Ŵyl Chwarae, gan werthfawrogi'r ymgysylltiad cymunedol a'r cyfleoedd i blant o bob oedran. Canmolwyd y parciau newydd am eu diogelwch a'u hygyrchedd ond nodwyd bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn rhwystr i chwarae. Dywedodd rhieni rhai plant 11-14 oed bod eu plant yn teimlo'n anniogel am fod ieuenctid hŷn yn y parciau, gan gyfyngu ar ddewisiadau chwarae awyr agored.

Pwyswyd am fwy o gyfleoedd chwarae dwyieithog, i sicrhau bod plant Cymraeg yn cael mynediad i weithgareddau yn eu mamiaith y tu allan i'r ysgol. Roedd cynnal a chadw mannau chwarae yn flaenoriaeth, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig, gyda galwadau am well cyfarpar a mwy o gyfleoedd chwarae mewn cymunedau lle nad yw'r hyn sydd ar gael yn ddigonol. Roedd ymwybyddiaeth o gyfleoedd chwarae hefyd yn bryder, gan fod llawer o rieni'n dibynnu ar y cyfryngau cymdeithasol i gael gwybodaeth.

Nododd ymatebwyr i'r arolwg rhanddeiliaid fod cost a chyfyngiadau oed yn rhwystrau, yn enwedig i deuluoedd ag adnoddau ariannol cyfyngedig. Roedd gweithgareddau seiliedig ar natur fel byw yn y gwyllt a mannau gwyrdd yn llai poblogaidd lle'r oedd diffyg gwaith cynnal a chadw neu lle'r oedd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyffredin. Roedd adloniant digidol a diffyg gweithgareddau awyr agored strwythuredig yn golygu bod chwarae awyr agored yn llai apelgar.

Pan holwyd ynghylch darpariaethau ychwanegol, gofynnodd 47 o ymatebwyr am barciau chwarae â gwell cyfarpar, gan gynnwys parciau sglefrio, mannau chwarae anturus, padiau sblasio a mannau ar gyfer plant ag anableddau ac anghenion niwroamrywiol. Roedd cefnogaeth gref ar gyfer gwell cyfleusterau chwaraeon awyr agored, megis lleiniau 4G, trampolinau, mannau beicio a chyfarpar ffitrwydd awyr agored. Roedd pêl-droed, rygbi, pêl-fasged a gwella parciau sglefrio yn flaenoriaethau. Y tu hwnt i'r mannau chwarae traddodiadol, roedd yr ymatebwyr yn gwerthfawrogi mannau agored ar gyfer chwarae dychmygus, megis parciau tywod, weiars gwib, a meysydd chwarae naturiol. Awgrymwyd mannau byw yn y gwyllt, ysgolion coedwig, a mannau addysgiadol seiliedig ar hanes lleol. Hefyd, argymhellwyd gweithgareddau addas i deuluoedd, gan gynnwys campfeydd gwyrdd, clybiau ar ôl ysgol, a digwyddiadau annigidol.

Ymhlith y problemau hygyrchedd, roedd cyrtiau pêl annigonol ger Canolfan Gymunedol Trelewis a seilwaith gwael ger Pentref Gardd Taf Merthyr, sy'n golygu bod mannau'n anodd eu cyrraedd. Teimlai 80% o'r ymatebwyr nad oedd digon o fannau chwarae. Dangosodd canfyddiadau Mater B fod 63.27% o'r rhanddeiliaid yn sôn am drafferthion mynediad, yn enwedig i blant anabl, ac yn pwysleisio'r angen am gyfleoedd chwarae cynhwysol. Mae diffyg cyfarpar addas, megis siglenni hygyrch neu fannau synhwyraidd, mewn llawer o fannau chwarae, ac mae'n anodd i rai plant ddefnyddio'r offer oherwydd diffyg lle neu oherwydd presenoldeb plant heb anableddau corfforol.

Roedd cost yn rhwystr arall, gan fod rhai cyfleusterau'n codi tâl, o dan glo, neu'n anodd eu cyrraedd oherwydd costau trafnidiaeth. Eglurodd ymatebwyr yn aml fod cost cyfranogi yn cyfyngu'n sylweddol ar weithgareddau hamdden a chwaraeon (Mater D).

Caiff Materion C ac Ch eu llywio gan ganfyddiadau ynghylch poblogrwydd gweithgareddau chwarae, sy'n ategu pwysigrwydd parciau hygyrch a meysydd chwaraeon strwythuredig. Roedd rhai cymunedau heb fannau chwarae y gellir eu cyrraedd ar droed, a bydd angen targedu gwelliannau. Roedd diffyg darpariaeth ar gyfer plant hŷn yn golygu eu bod yn defnyddio mannau a fwriadwyd ar gyfer plant iau, gan achosi anghysur a chyfrannu at ymddygiad gwrthgymdeithasol. Nododd rhieni pobl ifanc 11–14 oed fod eu plant yn teimlo'n anniogel oherwydd arddegwyr hŷn. Mae yna feysydd pêl-droed ond amlygodd rhieni fod prinder mannau cymdeithasol anstrwythuredig i blant hŷn, yn enwedig i ferched yn eu harddegau – awgrymodd un rhiant fod angen hyb cymunedol yn benodol ar gyfer y grŵp oedran hwn. Roedd y penderfyniad i gau parc sglefrio lleol oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol a diffyg goruchwyliaeth hefyd yn tanlinellu'r angen hwn. Roedd y rhieni'n dadlau o blaid parc sglefrio wedi'i fonitro a mwy o gyfleoedd hamdden fel cyrtiau tennis a phêl-fasged.

Mae parciau'n darparu'n dda ar gyfer plant iau dan oruchwyliaeth ond ychydig o ddewisiadau sydd ar gyfer chwarae annibynnol. Nododd rhai rhieni fod eu plant yn aros i mewn mwy, ac yn treulio mwy o amser o flaen sgrîn. Mae'r cyngor yn annog cymunedau i ymwneud â'r ddarpariaeth chwarae, ond mae angen parhau i ymgysylltu er mwyn sicrhau bod cyfleoedd chwarae yn cyd-fynd ag anghenion y gymuned. Mae chwarae yn ystyriaeth mewn strategaethau iechyd, addysg a

datblygu cymunedol lleol, ac mae ymdrechion i sicrhau ei fod yn flaenoriaeth wrth lunio polisïau ac mewn trefniadau cyllido (Mater Ff) yn parhau.

Datgelodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad bryderon am ddiffyg mannau chwarae, amodau gwael mewn parciau oherwydd fandaliaeth, a chyfarpar sydd wedi dyddio. Roedd pryderon ynghylch diogelwch, yn enwedig llwybrau cerdded sydd mewn cyflwr gwael, yn atal teuluoedd rhag defnyddio mannau chwarae. Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod angen cyfathrebu'n well a dosbarthu cyfleusterau chwarae mewn ffordd decach, yn enwedig mewn wardiau i lawr y cwm. Roedd pobl yn gwerthfawrogi darpariaethau dan oruchwyliaeth, megis cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau a chlybiau ar ôl ysgol, er bod cyfyngiadau cyllid yn effeithio ar gysondeb.

O ran materion Dd, E ac F yn benodol, amlygodd digwyddiadau'r Ŵyl Chwarae heriau fel anawsterau parcio a oedd yn fater cyffredin hyd yn oed ar ddyddiau llai prysur. Roedd cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus cyfyngedig yn atal mynediad i fannau chwarae, yn enwedig i blant a phobl ifanc mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell. Mae hyn yn cysylltu ymhellach â Mater D gan na all teuluoedd incwm is fforddio gwario arian ar betrol i gyrraedd mannau chwarae. Nodwyd bod llwybrau cerdded a beicio diogel yn flaenoriaeth er mwyn gwella mynediad annibynnol at gyfleoedd chwarae. Mynegodd y rhieni bryder ynghylch diffyg ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd chwarae a gynigir, gan fod llawer ohonynt yn dibynnu ar y cyfryngau cymdeithasol i gael gwybodaeth. I'r rhai sydd ddim yn defnyddio'r platfformau hyn, mae cael gwybod am ddarpariaethau lleol yn anodd. Roedd pryderon ynghylch diogelwch, yn enwedig o ran cyflwr gwael llwybrau cerdded, sydd hefyd yn atal teuluoedd rhag cyrchu mannau chwarae. Pwysleisiodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod angen i gyfleusterau chwarae gael eu dosbarthu'n decach, yn enwedig mewn wardiau i lawr y cwm, lle'r oedd diffyg darpariaeth awyr agored (Mater Dd). Eto yng nghyswllt Mater Dd, datgelodd digwyddiadau'r Ŵyl Chwarae heriau ymarferol megis anawsterau parcio yn ystod yr ail ddigwyddiad, a oedd yn broblem gyffredinol yn ôl y rhieni, hyd yn oed ar ddyddiau tawelach. Wrth drafod gyda'r rhieni, nodwyd pryderon ynghylch hygyrchedd mannau chwarae i wahanol grwpiau oedran. Yn aml, roedd diffyg lle pwrpasol i blant hŷn ac arddegwyr yn achosi iddynt ymgasglu mewn mannau a fwriadwyd ar gyfer plant iau, gan achosi anghysur i blant iau a chodi pryderon ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fodd bynnag, roedd diffyg mannau pwrpasol ar gyfer plant hŷn ac arddegwyr, sy'n aml yn achosi iddynt ymgasglu mewn mannau a fwriadwyd ar gyfer plant iau, yn bryder a godwyd droeon.

Dywedodd rhieni rhai plant 11-14 oed bod eu plant yn teimlo'n anghyfforddus yn mynd allan oherwydd yr arddegwyr hŷn oedd yn y mannau hyn.

Mae cyfleoedd hyfforddiant i weithwyr chwarae yn bodoli ond mae recriwtio a chadw staff yn her o hyd (Mater E). Mae angen gweithlu medrus ac mae ymdrechion i hyrwyddo datblygiad proffesiynol ar waith.

Mynegodd y rhieni ddymuniad cryf i gynnal digwyddiadau tebyg yn amlach, nid yn unig er mwynhad y plant ond hefyd i gryfhau cysylltiadau cymunedol. Roedd gan un parc rif cyswllt brys pwrpasol, ac awgrymodd rhieni y dylai hynny fod ar gael ym mhob parc er mwyn gwella camau diogelu, gan adlewyrchu dymuniad y gymuned i wella protocolau diogelwch (Mater F).

Mae'r canfyddiadau hyn wedi llywio'r cynllun gweithredu trwy nodi bylchau yn y ddarpariaeth, o ran diogelwch, cynwysoldeb, a hygyrchedd, sy'n cael sylw wedyn trwy gamau gweithredu penodol. Mae'r ymgyngoriadau'n amlygu bod angen gwell cyfleoedd chwarae i ferched yn eu harddegau, ac i blant ag anableddau, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Mewn ymateb, mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys ehangu'r ddarpariaeth chwarae am ddim a chost isel, cynyddu mentrau chwarae cynhwysol, a lleihau'r amser ar restrau aros ar gyfer clybiau chwarae. Mae'r cynllun gweithredu yn rhoi sylw i'r pryderon diogelwch ac amgylcheddol a nodwyd yn yr asesiad, megis goleuo annigonol, gollwng sbwriel, a diffyg mannau chwarae mewn cyflwr da, trwy osod biniau ychwanegol, cyflwyno rhaglenni gwarchod cymunedau, a diweddaru'r Asesiad Mannau Agored er mwyn sicrhau y cofnodir mannau chwarae'n gywir. Nododd yr ymgyngoriadau bryderon am y ddarpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth a mynediad at hyfforddiant i weithwyr chwarae. Mae'r cynllun gweithredu'n ymateb i hynny trwy adolygu hygyrchedd yr hyfforddiant i weithwyr chwarae ac ehangu dewisiadau chwarae dan oruchwyliaeth sy'n isel eu cost. Os bydd cyllid yn caniatáu, amlinellwyd strategaethau pellach yn y cynllun gweithredu i ymgysylltu â'r cyfryngau i roi portread cadarnhaol o blant yn chwarae.

## 4. Gwneud y mwyaf o adnoddau [uchafswm o 1,000 o eiriau]

*Defnyddiwch yr adran hon i drafod:*

- *Sut mae'r awdurdod lleol a'r partneriaid yn defnyddio cyllidebau presennol i gefnogi cyfleoedd i chwarae*
- *Tynnwch sylw at yr hyn sydd wedi newid ers yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae diwethaf o ran adnoddau*
- *Disgrifiwch sut mae rhaglenni Llywodraeth Cymru wedi cael eu defnyddio'n lleol*

**Defnyddio cyllidebau presennol**

Dros y tair blynedd diwethaf, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi ehangu cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc yn sylweddol, gyda chefnogaeth chyllid strategol a chydweithrediad gwahanol dimau a sefydliadau trydydd sector. Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi galluogi amrywiaeth eang o weithgareddau chwarae, chwaraeon a hamdden cynhwysol, a hynny’n ddi-dâl ar draws y sir. Cafodd hynny effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth chwarae, gan sicrhau mynediad at gyfleoedd chwarae ystyrlon i blant o bob cefndir, gan gynnwys y rhai mwyaf agored i niwed.

Ffocws allweddol oedd cefnogi plant sy’n wynebu heriau ychwanegol, gyda lleoedd pwrpasol yn cael eu neilltuo ym mhob gweithgaredd i sicrhau na chânt eu hallgáu. Drwy weithio’n agos gyda gwahanol adrannau a sefydliadau, bu modd i CBSMT ddarparu cyfleoedd hygyrch ac apelgar i bob plentyn. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth glir bod angen gwneud rhagor i ehangu’r cyfleoedd hyn ymhellach a chyrraedd mwy o bobl ifanc sydd o bosib yn dal i wynebu rhwystrau i chwarae.

**Cyllid Llywodraeth Cymru**

Er gwaethaf llwyddiant y ddarpariaeth chwarae, mae ehangu’r gwasanaethau hyn yn dal i fod yn anodd, yn bennaf oherwydd y pwysau ariannol a’r toriadau ariannol sy’n effeithio ar awdurdodau lleol. Un o’r heriau mwyaf fu’r cyllid gwarantedig cyfyngedig gan Lywodraeth Cymru, y gwelir ei fod yn annigonol i fodloni holl anghenion y ddarpariaeth chwarae. Fodd bynnag, gwneir pob ymdrech i fwyafu ei effaith. Heb gyllid hirdymor, diogel mae cynnal ac ehangu cyfleoedd chwarae’n mynd yn fwyfwy anodd.

I ymateb i’r heriau hyn, mae CBSMT yn chwilio ac yn ymgeisio’n benodol am gyllid ychwanegol bob blwyddyn er mwyn sicrhau dull amrywiol a chynaliadwy o ymdrin â’r

ddarpariaeth chwarae. Yn ddiweddar, neilltuodd Llywodraeth Cymru £10,000 ychwanegol i gefnogi gwaith ar yr argymhellion allweddol. Defnyddiwyd y Grant plant a Chymunedau, sy'n cynnwys grantiau gofal plant a chwarae, i helpu i gynnal gwasanaethau hanfodol. Bu'r grant Gwaith Chwarae, ochr yn ochr â buddsoddiad mewn hyfforddiant a chymorth, yn allweddol wrth wella cyfleoedd chwarae er gwaetha'r cyfyngiadau ariannol.

Mae ymrwymiad CBSMT i sicrhau darpariaeth chwarae gynhwysol o safon uchel i'r holl blant a phobl ifanc yn y fwrdeistref yn parhau. Fodd bynnag, bydd cymorth ariannol a buddsoddiad parhaus gan Lywodraeth Cymru yn hanfodol er mwyn cynnal y gwasanaethau hyn a'u datblygu ymhellach. Bu cymorth parhaus Llywodraeth Cymru yn allweddol wrth gynnal y lefel bresennol o gyfleoedd chwarae ac ni fyddai cyflwyno rhaglen mor gynhwysfawr o weithgareddau yn bosib heb y gefnogaeth hon.

Ers yr Asesiad diwethaf, bu sawl newid nodedig o ran adnoddau. Un o'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol fu'r £5 miliwn o gyllid cyfalaf a ddyfarnwyd i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o wella ansawdd mannau chwarae, adnewyddu meysydd chwarae, a chynnig mwy o fannau chwarae hygyrch. Mae'r cyllid hwn wedi rhoi hwb mawr ei angen i'r ddarpariaeth chwarae, gan ganiatáu gwaith uwchraddio hanfodol a chreu amgylchedd newydd o ansawdd uchel i blant. Ar ben hynny, bydd pob awdurdod lleol yn derbyn £10,000 o gyllid refeniw ar gyfer 2025-26 i gefnogi rhoi'r camau gweithredu a nodwyd yn yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ar waith. Er gwaetha'r cynnydd hwn mewn cyllid, mae heriau'n parhau, yn enwedig o safbwynt cynaliadwyedd hirdymor. Mae pwysau'r toriadau ehangach yn y gyllideb yn golygu bod y gallu i ehangu cyfleoedd chwarae yn gyfyngedig o hyd, ac er cyflawni gwelliannau sylweddol, mae rhagor o waith i'w wneud i sicrhau cymorth ariannol parhaus.

Mae cyllid Gwaith Chwarae y Grant Plant a Chymunedau wedi cefnogi amrywiaeth o weithgareddau cynhwysol, di-dâl, gan sicrhau bod cyfleoedd chwarae, chwaraeon a hamdden ar gael i bob plentyn a pherson ifanc, beth bynnag yw eu hamgylchiadau. Mae pwyslais pendant ar ddarparu ar gyfer y plant mwyaf agored i niwed, gyda chyfran o'r lleoedd ym mhob gweithgaredd a gyllidir yn cael ei neilltuo'n benodol ar gyfer plant sy'n wynebu heriau ychwanegol. Roedd y dull gweithredu hwn sydd wedi'i dargedu yn bosib oherwydd gwaith partneriaeth agos rhwng gwahanol adrannau, ysgolion a chyrff cymunedol, sy'n sicrhau bod chwarae o fewn cyrraedd y plant â'r angen mwyaf.

## 5. Monitro (uchafswm o 1,000 o eiriau)

*Defnyddiwch yr adran hon i drafod:*

- *Pwy sy'n cymryd y prif gyfrifoldeb strategol dros chwarae yn yr awdurdod lleol*
- *Sut mae'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn cysylltu â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Datblygu Lleol*
- *Sut mae'r Cynllun Gweithredu Chwarae yn cael ei fonitro:*
    - *A oes Grŵp Monitro Digonolrwydd Chwarae neu debyg?*
    - *Aelodaeth*
    - *Sut caiff ei hwyluso / cylch gorchwyl*
    - *Cryfderau a gwendidau'r grŵp*

**Cyfrifoldeb Strategol**

Yn CBSMT mae’r cyfrifoldeb dros sicrhau digonolrwydd cyfleoedd chwarae yn rhan o gylch gorchwyl y Grŵp Llywio Chwarae a’i gadeirydd Chris Hole, Pennaeth Ataliaeth. Cefnogir Chris gan y Cynghorydd Lisa Mytton, yr Eiriolwr Dros Blant, a Julia Lewis, Swyddog Chwarae, sy’n goruchwylio pob mater. Mae’r tîm yn cynnwys 26 aelod sy’n arwain gwaith cydgysylltu a chynllunio strategol, gyda swyddog allweddol yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â’r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Yn ogystal, caiff pob Mater ei neilltuo i un neu ragor o aelodau’r Grŵp Llywio er mwyn sicrhau bod camau gweithredu’n cael eu monitro ac yn cael sylw digonol. I gyflawni hynny, mae’r Grŵp Llywio yn cydweithio’n agos â Theithio Llesol, Merthyr Egnïol, Swyddogion Ysgol, ac amrywiaeth o Wasanaethau Ieuenctid a Darparwyr Chwarae. Cynrychiolir yr adrannau Parciau, Chwaraeon a Hamdden, Gwasanaethau i Deuluoedd, Priffyrdd a Rheoli Traffig, Cydlyniant Cymunedol, Rheoli Ystadau, Cynllunio a Chefn Gwlad ar y Grŵp Llywio, ac estynnir yr aelodaeth i gwmpasu Uwch Swyddog Ieuenctid a Chymuned, Ysgolion Bro, Cymryd Rhan a Bwrdd Iechyd Cwm Taf.

**Integreiddio’r Asesiad yn Ehangach**

Bydd Asesiad Merthyr Tudful yn integreiddio’n agos â fframweithiau strategol ehangach er mwyn sicrhau bod ystyriaeth ddigonol i anghenion chwarae plant ar draws gwahanol feysydd llywodraethiant lleol. Mae gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), sy’n gyfrifol am hyrwyddo llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, a diwylliannol y gymuned, rôl sylweddol o ran sicrhau cyfatebiaeth

rhwng y nodau digonolrwydd cyfleoedd chwarae a chynlluniau llesiant ehangach. Penodwyd Lisa Mytton, yr aelod cabinet, yn ‘eiriolwr dros chwarae’ i gynrychioli ystyriaethau digonolrwydd cyfleoedd chwarae ym mhroses benderfyniadau’r BGC. Mae’r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod chwarae yn parhau i fod yn ganolbwynt allweddol mewn trafodaethau polisi ehangach ynghylch llesiant a chynllunio cymunedol.

Mae’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yn gyswllt pwysig arall yn yr ymdrechion i sicrhau digonolrwydd cyfleoedd chwarae, yn enwedig mewn perthynas â iechyd a gofal cymdeithasol. Tasg y BPRhau yw integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn gwella llesiant cyffredinol. Drwy ymgorffori digonolrwydd cyfleoedd chwarae yn y strwythur hwn, sicrheir bod chwarae’n cael ei gydnabod fel elfen hanfodol o iechyd a datblygiad plant. Drwy gydweithio â gweithwyr iechyd proffesiynol a’r gwasanaethau cymdeithasol, mae modd gweld cyfleoedd chwarae nid fel gweithgaredd hamdden yn unig, ond hefyd fel ymyriadau sy’n cefnogi canlyniadau iechyd meddwl a iechyd corfforol i blant a phobl ifanc.

Mae cysylltiad hefyd rhwng yr Asesiad a’r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), sy’n pennu polisïau cynllunio a pholisïau defnydd tir hirdymor ar gyfer yr ardal. Mae grŵp y CDLl yn ymwybodol o’r cynlluniau gweithredu ac maen nhw gweithio’n benodol gyda’r Grŵp Llywio Chwarae a CBSMT cyfan i sicrhau y gweithredir nhw yn effeithiol. Mae swyddogion sy’n ymwneud â’r CDLl hefyd yn aelodau o’r Grŵp Llywio Chwarae er mwyn sicrhau bod mannau chwarae hygyrch o ansawdd uchel yn cael eu cynnwys mewn datblygiadau yn y dyfodol. Mae hyn yn hanfodol o ran cynnal a chadw ac ehangu amgylcheddau chwarae diogel ac apelgar, yn enwedig mewn ardaloedd trefol lle gall mynediad plant i fannau chwarae naturiol fod yn gyfyngedig. Mae ystyriaethau digonolrwydd cyfleoedd chwarae yn CDLl CBSMT wedi arwain at bolisïau cynllunio sy’n blaenoriaethu cadw mannau gwyrdd a chynnwys mannau chwarae mewn datblygiadau tai newydd.

**Monitro’r Cynllun Gweithredu Chwarae**

Mae monitro a gwerthuso’r Cynllun Gweithredu Chwarae ym Merthyr Tudful yn hanfodol er mwyn asesu cynnydd a nodi meysydd y mae angen eu gwella. Gofynnwyd i’r Grŵp Gwella Chwarae adolygu cyflwyniad y cynllun gweithredu. Mae’r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o wahanol sectorau, gan gynnwys swyddogion

CBSMT, darparwyr chwarae, cyrff cymunedol, gweithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol a sefydliadau addysg.

Caiff y gwaith o hwyluso'r grŵp monitro ei lywio gan gylch gorchwyl ffurfiol, sy'n amlinellu diben y grŵp, ei rolau a'i gyfrifoldebau. Mae CBSMT yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru o ran strwythur y grŵp hwn, sy'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn er mwyn trafod cynnydd, mynd i'r afael â heriau a datblygu strategaethau i wella cyfleoedd chwarae ar draws y fwrdeistref sirol. I hwyluso'r gwaith hwn yn effeithiol, mae gofyn sicrhau cyfranogiad gweithredol yr holl aelodau, sianeli cyfathrebu clir, ac ymrwymiad a rennir i gyflawni'r nodau a amlinellwyd yn y Cynllun Gweithredu Chwarae.

Mae bodolaeth y grŵp monitro yn darparu trosolwg gwerthfawr, ond mae ei effeithiolrwydd yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Un o brif gryfderau'r grŵp yw dwyn ynghyd arbenigeddau amrywiol sy'n ei alluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a chydweithio i ddatrys problemau. Drwy gynnwys rhanddeiliaid o wahanol sectorau, mae'r grŵp yn sicrhau bod digonolrwydd cyfleoedd chwarae yn ystyriaeth mewn agendâu cymdeithasol, iechyd a chynllunio ehangach. Ond, gall heriau godi pan fydd blaenoriaethau'r aelodau yn cystadlu â'i gilydd neu pan fydd cyfyngiadau o ran adnoddau yn dal y gwaith o gyflwyno mentrau arfaethedig yn ôl. Mae sicrhau bod cyflenwad da o adnoddau gan y grŵp a bod llunwyr penderfyniadau CBSMT yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i'w hargymhellion yn allweddol er mwyn i'w dylanwad barhau. Wedi dweud hynny, rydym o'r farn bod y cydweithio rhwng gwahanol adrannau wedi gwella'n aruthrol ers yr Asesiad blaenorol yn 2022, ac mae cyflwyno Grŵp Llywio Chwarae trawsadrannol yn adlewyrchu hynny ac wedi symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau yn sylweddol.

Drwy integreiddio digonolrwydd cyfleoedd chwarae mewn fframweithiau strategol megis y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y BPRh a'r CDLl, a thrwy sicrhau dull monitro a gwerthuso strwythuredig, mae CBSMT yn gweithio i sicrhau bod gan bob plentyn fynediad at gyfleoedd chwarae o ansawdd uchel, sy'n cefnogi eu llesiant a'u datblygiad.

## 6. Casgliad (uchafswm o 1,000 o eiriau)

*Defnyddiwch yr adran hon i drafod:*

- *Sylwadau i gloi*
- *Negeseuon allweddol ar ganlyniadau*
- *Camau gweithredu arfaethedig ar gyfer y ffordd ymlaen*

Mae cydnabyddiaeth eang ar draws y fwrdeistref fod chwarae yn hanfodol i ddatblygiad, llesiant ac integreiddio cymdeithasol plant, ac mae'r asesiad yn dangos bod yr ymrwymiadau statudol o dan Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni. Cydnabyddir bod chwarae yn un o hawliau sylfaenol plant, sy'n cyfrannu at eu datblygiad corfforol, emosiynol a chymdeithasol, ond mae sicrhau darpariaeth ddigonol yn dal i fod yn fater cymhleth sy'n cael ei lywio gan gyfyngiadau ariannol, gofodol a chymdeithasol. Roedd mynediad at gyfleoedd chwarae yn bryder a amlygwyd yn gyson ar hyd yr ymgynghoriad. Mae CBSMT yn cynyddu ei ymdrechion i ddarparu cyfleoedd chwarae cynhwysol, ond mae plant ag anableddau a phlant o gefndiroedd difreintiedig yn dal i wynebu rhwystrau. Nid yw rhai mannau chwarae yn gallu darparu'n llawn ar gyfer anghenion amrywiol, gan gyfyngu ar y cyfleoedd i bob plentyn chwarae ar sail gyfartal. Nodwyd ymhellach fod byw yn bell o ddarpariaeth chwarae yn rhwystr, yn enwedig gan na all teuluoedd o gefndiroedd incwm is fforddio prynu tocyn bws neu betrol er mwyn cyrraedd y mannau hyn. I fynd i'r afael â'r problemau hyn, mae gofyn defnyddio dull gweithredu mwy strategol o ddylunio chwarae cynhwysol, er mwyn sicrhau bod pob plentyn, beth bynnag yw eu gallu neu eu statws sosio-economaidd, yn gallu cael mynediad i amgylcheddau diogel ac ysgogol.

Gwelwyd yn glir trwy'r ymgynghoriad fod CBSMT wedi cyflwyno mentrau llwyddiannus i gynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd chwarae, ochr yn ochr ag ymdrechion i integreiddio chwarae yn y gymuned ehangach ac mewn lleoliadau addysg, gan ddangos ymrwymiad i wella'r ddarpariaeth. Ond er mwyn cynnal yr ymdrechion hyn, bydd angen dull gweithredu strategol, hirdymor, a gefnogir gan gyllid a chymorth polisi priodol. Bydd gwella hygyrchedd a chynwysoldeb ar flaen camau gweithredu yn y dyfodol. Cynhelir archwiliadau o hygyrchedd mannau chwarae sydd eisoes yn bodoli er mwyn helpu i nodi rhwystrau penodol a llywio gwelliannau penodol, gan sicrhau mynediad cyfartal at gyfleoedd chwarae i blant ag

anableddau a phlant o gefndiroedd difreintiedig. Edrychir hefyd ar fuddsoddi ymhellach mewn cyfarpar chwarae cynhwysol, gwella cysylltiadau trafnidiaeth i fannau chwarae, a datblygu ardaloedd cyhoeddus sy'n croesawu chwarae, yn benodol gan ystyried nifer y disgyblion CA3/CA4 a soniodd am ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys pobl sy'n yfed ac yn cam-drin sylweddau mewn parciau. Yn ogystal, galwodd nifer mawr o ymatebwyr am wella mannau chwarae a gwella cyfarpar – ond mae'r cyngor eisoes wedi dechrau rhoi sylw i'r mater hwn gan fod prosiect adnewyddu mawr ar waith ganddynt.

## 7. Dadansoddiad o bob thema

<table>
<tr><td>Poblogaeth:<br>Mater A: Nifer y plant mewn perthynas â phob ystod oedran o fewn ei ardal<br>Mater B: Anghenion plant o wahanol ddiwylliannau a chefndiroedd o fewn ei ardal<br>Mater D: A oes tâl am ddarpariaeth chwarae a ble codir tâl</td></tr>
<tr><td>Beth ddywedodd y plant wrthym:<ul><li>Mae’r sefyllfa o ran y cyfleusterau sydd ar gael ym Merthyr Tudful yn gymysg yn ôl pob golwg, yn enwedig ar gyfer plant hŷn ac arddegwyr, a soniwyd yn aml am ddiffyg meysydd chwaraeon, parciau sglefrio a dewisiadau chwarae strwythuredig.</li><li>Yn eu hadborth, dywedodd y plant ag ADY nad yw’r mannau chwarae cyfredol bob amser yn gynhwysol nac yn hygyrch, a bod amrywiaeth cyfyngedig o ddewisiadau, yn enwedig o ran cyfarpar addasol a chwarae synhwyraidd.</li><li>Er bod canfyddiad cadarnhaol o ddiogelwch yn gyffredinol, cododd plant bryderon am oleuo gwael mewn parciau gyda’r nos a theimlo’n anniogel oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys adroddiadau am “ddyn hŷn, amheus” oedd yn sefyllian ger siopau ac ardaloedd cyhoeddus.</li><li>Yn ystod y cyfweliad grŵp ffocws, dywedodd y plant 12-14 oed fod angen mwy o ddewisiadau hamdden, megis sesiynau hirach mewn clybiau ieuenctid, gwell cyfleusterau pêl-droed, parciau sglefrio ychwanegol, a gwella’r gwaith cynnal a chadw mewn mannau sydd eisoes yn bodoli.</li><li>Nododd y plant yn aml fod teithio i gyfleusterau mwy o faint yn rhwystr.</li><li>Mae data am ethnigrwydd y rhai a ymatebodd i’r arolwg yn dangos bod poblogaeth Merthyr Tudful yn Wyn yn bennaf (roedd 87.88% yn CA2 a 97.37% yn CA3-4 yn disgrifio’u hunain fel Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig); fodd bynnag, mae nifer arwyddocaol o blant o gefndiroedd Indiaidd, Pacistani a chefndiroedd ethnig cymysg.</li><li>Mae’r data poblogaeth hefyd yn datgelu mai ardaloedd megis Cyfarthfa, y Dref, Gurnos, a Dowlais a’r Pant sydd â’r crynodiadau uchaf o blant 0-14 oed. Mae hyn yn amlygu galw mawr am gyfleusterau chwarae hygyrch datblygedig yn yr ardaloedd hyn.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Cryfderau<ul><li>Er gwaethaf rhai anawsterau wrth gofrestru gydag AGC, mae manteision gwneud hynny yn cynnwys mynediad at amrywiaeth ehangach o weithgareddau i blant o bob oedran, oriau estynedig a chymhwysedd ar gyfer grantiau. Mae cofrestru gydag AGC hefyd yn caniatáu i rieni gyflwyno cais i raglenni bwyd am ddim, sy’n arbennig o fanteisiol i deuluoedd o gefndiroedd incwm isel.</li><li>Dywedodd mwyafrif o’r plant a holwyd eu bod yn teimlo’n ‘ddiogel fel arfer’ wrth chwarae y tu allan ym Merthyr Tudful, sy’n</li></ul></td></tr>
</table>

awgrymu bod yr argraff sydd ganddynt o ddiogelwch amgylcheddau chwarae awyr agored yn gadarnhaol at ei gilydd

- Mae mentrau penodol yn bodoli i gynorthwyo grwpiau lleiafrifol, megis y gymuned Sipsiwn a Theithwyr a phlant ag anableddau.
- Mae rhaglenni chwarae sydd eisoes yn bodoli wedi derbyn adborth cadarnhaol gan rieni a phlant, sy'n awgrymu eu bod yn werthfawr ac yn bodloni rhai o anghenion y gymuned.
- Ymhlith y dewisiadau hamdden mwyaf poblogaidd i blant a phobl ifanc mae clybiau ieuenctid, canolfannau cymunedol, diwrnodau i deuluoedd, a gweithgareddau grŵp. Mae'r gweithgareddau hyn yn annog rhyngweithio cymdeithasol ac yn cynnig mannau diogel, strwythuredig lle gall plant ymgysylltu â'u cyfoedion.

**Gwendidau**

- Mae data ynghylch y boblogaeth gyfredol a'r grwpiau oedran (0-18) ar lefel ward ar gael, ond mae'n seiliedig ar set ddata 2022 ac mae'n bosib nad yw'n adlewyrchu'r holl dueddiadau diweddar.
- Nid yw'r data poblogaeth yn cynnwys manylion penodol am blant ag ADY fesul grŵp oedran, na data cynhwysfawr am blant ethnig leiafrifol, na'r plant sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Gallai'r bwlch hwn yn y data effeithio ar waith i gynllunio cyfleusterau chwarae cynhwysol yn y dyfodol.
  - Roedd ymgysylltiad plant a phobl ifanc ag ADY â'r broses ymgynghori yn gyfyngedig (dim ond 8 ymateb i'r arolwg), a gallaihynny  olygu na fydd eu hanghenion penodol yn cael eu cynrychioli'n llawn wrth gynllunio darpariaeth chwarae yn y dyfodol.
- Gwelir galw cryf am gyfleusterau chwarae datblygedig yn yr ardaloedd â'r crynodiadau uchaf o blant 0-14 oed, megis Cyfarthfa, y Dref, a Gurnos, sy'n amlygu bod angen dewisiadau chwarae mwy hygyrch ac amrywiol ar y plant hyn.
  - Nododd 80% o ymatebwyr yr arolwg rhanddeiliaid nad oes digon o fannau i blant chwarae.
- Mae gwahaniaethau economaidd yn ardal Merthyr Tudful yn effeithio'n sylweddol ar fynediad at gyfleoedd chwarae, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae canran uchel o blant yn byw mewn teuluoedd incwm isel absoliwt, megis Gurnos (22%), Ynysowen (21%), Bedlinog (17%), a Phenydarren (17%).
- Mae cost cyfleusterau chwarae yn dal i fod yn rhwystr sylweddol i fynediad, ac yn cael mwy o effaith ar deuluoedd o gefndiroedd incwm isel. Mae prif ganfyddiadau'r arolygon rhanddeiliaid a rhieni/gofalwyr yn cynnwys:
  - Bod gweithgareddau sy'n codi ffioedd ychwanegol neu'n defnyddio cyfyngiadau oed yn llai poblogaidd, yn enwedig ymhlith teuluoedd sy'n methu fforddio hynny.
  - Bod rhai cyfleusterau yn cynnig mynediad cyfyngedig oherwydd eu bod dan glo neu'n codi tâl mynediad, gan gyfyngu ymhellach ar gyfleoedd i deuluoedd eu defnyddio.
  - Dywedodd 40% o'r rhieni fod gweithgareddau'n rhy ddrud, yn enwedig i deuluoedd â mwy nag un plentyn, oherwydd yr argyfwng costau byw.

- Bod rhieni sengl, yn enwedig, yn cael bod fforddio clybiau ar ôl ysgol neu weithgareddau lleol yn mynd yn fwy a mwy anodd, gan fod y costau wedi dyblu o gymharu â'r lefelau cyn COVID.
- Mae rhai cyfleusterau chwarae yn anodd eu cyrraedd, am eu bod yn bell o'r cartref neu wedi'u lleoli mewn trefi, sy'n golygu eu bod yn llai hygyrch.
    - Mae 41% o'r ymatebwyr yn anfodlon ar hygyrchedd mannau agored, yn enwedig mewn ardaloedd mwy anghysbell neu faestrefol. Mae angen car i gyrraedd llawer o barciau, sy'n rhwystr i deuluoedd heb drafnidiaeth.
- Mae diogelwch yn dal i fod yn bryder sylweddol i rieni/gofalwyr a soniwyd am broblemau fel gweithgareddau cymryd cyffuriau mewn ardaloedd cyhoeddus, ymddygiad gwrthgymdeithasol, peryglon traffig a phryderon cyffredinol ynghylch diogelwch oherwydd diffyg presenoldeb yr heddlu a dod ar draws dieithriaid.
    - Mae goruchwyliaeth gyfyngedig a goleuo gwael mewn rhai parciau yn gwneud iddynt deimlo'n anniogel, yn enwedig fin nos neu wedi iddi dywyllu.
- Mae'n amlwg nad oes mannau chwarae cynhwysol lle gall teuluoedd dreulio amser braf yng nghwmni ei gilydd, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae cyfleoedd cyfyngedig i blant o grwpiau oedran gwahanol chwarae gyda'i gilydd.
- Mae galw amlwg am fwy o fannau chwarae amrywiol a diogel ar draws y fwrdeistref, yn enwedig mannau sy'n darparu ar gyfer anghenion arddegwyr a phobl ifanc.
- Mae gwella hygyrchedd a diogelwch mannau chwarae yn allweddol hefyd, yn enwedig i blant ag anableddau neu blant ag ADY, gan fod y plant hyn yn aml yn wynebu rhwystrau wrth geisio defnyddio mannau sydd eisoes yn bodoli.
    - Yn yr arolwg rhanddeiliaid, tynnodd y mwyafrif o'r ymatebwyr sylw at drafferthion gydag offer oherwydd prinder lle neu bresenoldeb plant heb anableddau corfforol.
    - Dywedodd 15% o'r rhieni/gofalwyr ei bod hi'n anodd i'w plentyn/plant gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau, yn bennaf oherwydd anabledd.
    - Mae llawer o fannau chwarae heb gyfarpar addas, megis siglenni hygyrch neu fannau synhwyraidd.

**Cyfleoedd**

- Mae'r bwlch amlwg mewn cyfleusterau i blant hŷn (12-18 oed) a'r twf disgwyliedig yn y grŵp oedran hwn, yn golygu bod cyfle i ddatblygu mwy o fannau addas i ieuenctid, megis cyfleusterau chwaraeon, parciau sglefrio, a mannau hamdden. Byddai ehangu'r dewisiadau hyn yn bodloni anghenion hamdden a chymdeithasol y grŵp oedran hwn, gan helpu i leihau risg ymddygiad gwrthgymdeithasol a darparu cyfleoedd ymgysylltu cadarnhaol.
- O ystyried y ddibyniaeth ar set ddata 2022, byddai casglu data mwy cyfredol sy'n canolbwyntio ar yr ardaloedd lle gwelir

newidiadau demograffig yn fodd i gynllunio'r ddarpariaeth chwarae yn y dyfodol mewn modd mwy manwl gywir ac effeithiol.
  - Gallai gwell data am blant ag ADY gefnogi'r gwaith o ddatblygu dewisiadau chwarae mwy cynhwysol, gan gynnwys darparu cyfarpar chwarae hygyrch ac addasol, mannau synhwyraidd, a mannau sy'n hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol i bob plentyn, beth bynnag yw eu gallu neu eu cefndir.
  - Byddai ehangu'r data a gesglir i gwmpasu plant o gefndiroedd ethnig ac o gartrefi Cymraeg yn helpu i lenwi bylchau mewn darpariaeth chwarae diwylliannol gynhwysol.
- Mae ardaloedd â chrynodiadau uwch o blant, megis Cyfarthfa, y Dref, a'r Gurnos, yn gyfle i hoelio'r sylw ar ddatblygu cyfleusterau chwarae.
- Mae gwahaniaethau economaidd, yn enwedig mewn ardaloedd â diweithdra uchel a theuluoedd incwm isel, yn gyfle i roi sylw i anghydraddoldebau o ran mannau chwarae.
  - Gallai datblygu mynediad â chymhorthdal neu fynediad am ddim i gyfleusterau chwarae a chyflwyno cynlluniau trafnidiaeth i deuluoedd heb gar gynyddu hygyrchedd.
  - Gallai buddsoddi mewn gweithgareddau hygyrch am ddim i deuluoedd, megis trefnu digwyddiadau chwaraeon neu ddiwrnodau hwyl cymunedol, helpu i leihau rhwystrau ariannol a chynyddu ymgysylltiad.
- Gallai sefydlu mwy o fannau chwarae o dan arweiniad y gymuned neu "strydoedd chwarae" ddarparu dewisiadau hyblyg, diogel ar gyfer chwarae awyr agored a rhyngweithio cymdeithasol, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oes cyfleusterau parhaol.
- Byddai cynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o ddylunio a chynllunio cyfleusterau yn bodloni eu hanghenion mewn modd mwy effeithiol, ochr yn ochr â meithrin ymdeimlad o berchenogaeth.

**Bygythiadau**

- Gallai'r gostyngiad cyffredinol mewn cyfraddau geni ym Merthyr Tudful, sy'n cyd-fynd â'r tueddiadau cenedlaethol, arwain at ostyngiad yn y galw am wasanaethau chwarae i'r blynyddoedd cynnar os bydd y patrwm yn parhau. Gallai hynny olygu symud adnoddau er mwyn darparu ar gyfer plant hŷn ac addasu'r ddarpariaeth ar gyfer carfanau iau yn unol â hynny.
  - Disgwylir i'r boblogaeth 0-18 oed ym Merthyr Tudful ostwng i 34,347 erbyn 2026, gyda gostyngiad amlwg yn y grŵp 3-11 oed. Gallai'r gostyngiad hwn leihau'r niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau chwarae i'r blynyddoedd cynnar ac effeithio ar ddyraniadau cyllid yn y dyfodol.
- Os na wneir dim, gallai lefelau isel o bobl economaidd weithgar mewn rhai ardaloedd, megis Gurnos a Bedlinog, gyfyngu ar allu teuluoedd i dalu am ddarpariaethau chwarae yn y dyfodol.
  - Gallai gwahaniaethau economaidd parhaus a'r cynnydd mewn costau byw ehangu'r bwlch mynediad i gyfleusterau chwarae, yn enwedig mewn ardaloedd â diweithdra uchel, lle mae fforddiadwyedd eisoes yn anodd i deuluoedd.

- Gallai cyfyngiadau cyllid effeithio ar y gallu i ehangu trafnidiaeth â chymhorthdal, i gynnal mannau chwarae sydd eisoes yn bodoli, ac i ddatblygu cyfleusterau newydd, yn enwedig rhai pwrpasol i blant hŷn
- Gallai diffyg cynnal a chadw, cyfarpar wedi dyddio, a diffyg cyfleusterau priodol arwain at danddefnyddio mannau chwarae sydd eisoes yn bodoli.
- Gallai pryderon am ddiogelwch, gan gynnwys gweithgareddau cymryd cyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, a goleuo gwael, atal plant a theuluoedd rhag defnyddio mannau chwarae lleol, hyd yn oes os cyflwynir gwelliannau.

| **Lleoedd lle mae plant yn chwarae:**<br>**Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae, gan gynnwys mannau agored, ac unrhyw ofod arall**<br>**Mater Dd: Mesurau traffig a ddefnyddir i hyrwyddo mynediad at chwarae**<br>**Mater Ff: I ba raddau y mae polisïau addysg a chynllunio datblygu lleol yn ystyried yr angen i wella cyfleoedd chwarae i blant** |
|---|
| **Beth ddywedodd y plant wrthym:**<br>• Mae'r mwyafrif o blant yn ffafrio chwarae dan do ac yn y cartref, gyda 96.77% o ymatebwyr CA2 a 68.18% o ymatebwyr CA3/4 yn chwarae yn eu cartref neu yn nhŷ ffrind.<br>• O ran mannau agored cyhoeddus, roedd strydoedd ger eu cartrefi a mannau glaswelltog lleol yn ddewisiadau poblogaidd ar gyfer chwarae a chymdeithasu.<br>• Mae'n ymddangos bod gan lawer o blant fynediad cyfyngedig i'w hoff fannau chwarae<br>  o Yn arolwg CA2, dim ond 16.67% o'r ymatebwyr ddywedodd eu bod yn gallu chwarae ym mhob man lle hoffent, gyda 40% yn gallu cyrchu rhai ohonynt, 26.67% yn gallu cyrchu ychydig ohonynt, a 16.67% yn dweud na allent gyrchu dim o'u hoff fannau chwarae<br>  o Yn arolwg CA3/4, dywedodd 32.95% eu bod yn gallu treulio amser ym mhob man lle hoffent, tra bod 28.41% yn gallu cyrchu rhai yn unig ohonynt, a 29.55% yn gallu cyrchu ychydig yn unig ohonynt.<br>• Soniwyd yn fynych fod clybiau ieuenctid a chaeau agored yn fannau cadarnhaol i gymdeithasu a chwarae ynddynt, yn enwedig i ymatebwyr CA2 a CA3/4, gan amlygu eu pwysigrwydd o ran ymgysylltu cymunedol.<br>• Roedd y cyfleusterau chwaraeon a'r mannau gwyrdd oedd ar gael yn cael eu gwerthfawrogi, ond yn yr arolygon, nododd y plant fod diffyg dewisiadau amrywiol ac oed briodol megis waliau dringo, parciau sglefrio a chyrtiau tennis.<br>• Roedd problemau cynnal a chadw yn bryder cyffredin ac amlygwyd bod difrod i gyfarpar, glaswellt wedi gordyfu, a gollwng sbwriel yn rhwystrau i chwarae, yn enwedig ymhlith plant ifancach.<br>• Soniwyd bod traffig a diogelwch ffyrdd yn broblemau sylweddol, a dywedwyd droeon fod gormod o geir a beiciau modur ger mannau chwarae, a bod llwybrau diogel i barciau yn gyfyngedig.<br>• Y dull mwyaf cyffredin o deithio i fannau chwarae a chymdeithasu yw cerdded neu feicio gyda ffrindiau, gyda 35.48% o ymatebwyr CA2 a 33.33% o ymatebwyr CA3/4 yn dweud eu bod yn defnyddio'r dull teithio hwn.<br>• Roedd rhwystrau hygyrchedd yn cynnwys dewisiadau trafnidiaeth cyfyngedig a mannau chwarae sy'n rhy bell o'r cartref, sy'n heriol i deuluoedd heb gar.<br>  o Mae cyfran sylweddol o blant (29.03% yn CA2 a 29.33% yn CA3/4) yn cael eu hebrwng gan oedolyn mewn car, sy'n awgrymu nad yw lleoliadau chwarae bob amser o fewn cyrraedd ar droed neu ar gefn beic. |

| |
|---|
| • Ni ddewisodd yr un o ymatebwyr CA2 drafnidiaeth gyhoeddus fel eu prif ddull teithio.<br>• Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod angen mwy o weithgareddau strwythuredig a chlybiau ieuenctid ychwanegol, yn enwedig ar gyfer arddegwyr, er mwyn cynyddu cyfleoedd cymdeithasol a lleihau diflastod.<br>• Dywedodd plant ag ADY fod yn well ganddynt chwarae gartref, mewn clybiau ar ôl ysgol, ac ar y strydoedd, gan amlygu pwysigrwydd amgylcheddau chwarae strwythuredig a chyfarwydd. |
| **Cryfderau**<br>• Sonnir yn aml am glybiau ieuenctid a chaeau agored fel mannau cadarnhaol i gymdeithasu a chwarae. Gwelir bod y mannau hyn yn hanfodol ar gyfer ymgysylltu cymunedol a'u bod yn cynnig amgylcheddau strwythuredig ar gyfer hamdden a rhyngweithio cymdeithasol.<br>• Er bod rhai heriau, mae mannau glaswelltog lleol yn dal yn fannau chwarae poblogaidd i blant, gan gynnwys dewisiadau hygyrch ar gyfer cymdeithasu a gweithgarwch corfforol.<br>• Codwyd arwyddion Blaenoriaeth i Chwarae.<br>• Mae CBSMT wedi cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am bwerau i orfodi Troseddau Traffig sy'n Symud. Bydd hyn yn caniatáu i CBSMT sicrhau cydymffurfiaeth â'r gorchmynion traffig sydd eisoes yn bodoli i wneud ein strydoedd yn fwy diogel i breswylwyr, yn enwedig y tu allan i ysgolion.<br>• O dan fenter Teithio Llesol y cyngor, cyflwynwyd Map Rhwydwaith Teithio Llesol i Lywodraeth Cymru, sy'n amlygu'r llwybrau presennol a'r llwybrau arfaethedig i gerddwyr yn y dyfodol a nodwyd trwy ymgynghori â chymunedau. Mae CBSMT yn cadw rhestrau o groesfannau a llwybrau newydd â blaenoriaeth.<br>• Gwerthfawrogir y mannau gwyrdd a'r cyfleusterau chwaraeon sydd ar gael, ac mae rhai plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ac yn cymdeithasu â ffrindiau.<br>• Mae parciau, yn enwedig y rhai sy'n darparu ar gyfer plant iau, yn cael derbyniad cadarnhaol gan rieni, sy'n gweld eu bod yn ddewis da ar gyfer chwarae dan oruchwyliaeth.<br>• Roedd barn y rhieni ar barciau newydd a adeiladir yn gadarnhaol o ran eu diogelwch a'u hygyrchedd, sy'n awgrymu y gellir gwella profiad cyffredinol i blant trwy fuddsoddi mewn mannau chwarae modern sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda.<br>• Dywedodd gweithwyr chwarae fod gan eu cyfleusterau adnoddau da i ddarparu ar gyfer plant ag AAA, a chafwyd adborth cadarnhaol gan y rhieni a'r gofalwyr ynghylch cynwysoldeb ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. |
| **Gwendidau**<br>• Dywedodd cyfran sylweddol o blant fod mynediad i'w hoff fannau chwarae yn gyfyngedig.<br>• Dim ond 20% o'r rhieni/gofalwyr oedd yn fodlon ar y ddarpariaeth chwarae gyffredinol yn eu hardal, gyda 50% yn mynegi eu hanfodlonrwydd. Mae'r anfodlonrwydd yma yn deillio o gyfuniad o bryderon am ddiogelwch, dewisiadau chwarae cyfyngedig a |

gwaith cynnal a chadw gwael sydd, gyda'i gilydd, yn cyfyngu ar gyfleoedd plant i fwynhau chwarae'n ddiogel yn yr awyr agored.

- Soniodd y plant a holwyd am faterion diogelwch, fel gormod o geir a beiciau modur ger mannau chwarae, a bod nifer cyfyngedig o lwybrau diogel i barciau.
    - Mynegodd 40% o'r rhieni/gofalwyr a holwyd hefyd bryder am ddiogelwch eu plant tra byddant yn chwarae y tu allan, ac roedd gweithgareddau cymryd cyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r holl draffig sydd ar y ffyrdd ymhlith y rhesymau am hynny.
    - Cyfeiriodd y rhieni at ddiffyg presenoldeb yr heddlu a digwyddiadau yn ymwneud â dieithriaid fel ffactorau sy'n cyfrannu at eu pryderon am ddiogelwch.
- Roedd pryder am ddiffyg cyfleusterau oed briodol yn codi droeon ar hyd yr ymgynghoriad.
    - Amlygwyd diffyg dewisiadau chwarae amrywiol ac oed-briodol, gan gynnwys parciau sglefrio, waliau dringo a chyrtiau tennis, gan lawer o'r plant. Mae hyn yn broblem benodol i arddegwyr, a all deimlo nad yw'r cyfleusterau presennol yn ddigon difyr
    - Datgelodd yr arolygon rhanddeiliaid a rhieni/gofalwyr bryder hefyd am ddiffyg mannau pwrpasol i blant hŷn, ynghyd â phryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol. I rai rhieni, mae diffyg dewisiadau chwarae amrywiol ac oed-briodol yn cyfrannu at y cynnydd yn yr amser mae plant hŷn yn ei dreulio yn chwarae o dan do ac o flaen sgrîn, sy'n niweidiol i lesiant eu plant.
- Soniodd y plant droeon am ddifrod i gyfarpar, glaswellt wedi gordyfu, mannau lleidiog, baw cŵn a gollwng sbwriel, gan ddweud eu bod yn effeithio ar pa mor ddymunol yw'r mannau chwarae a'u gallu i'w defnyddio.
    - Dywedodd y rhieni hefyd fod y parciau sydd eisoes yn bodoli yn aml yn llwm, a bod cyfarpar sydd wedi torri, sbwriel a fandaliaeth yn broblemau cyffredin. Roedd beirniadaeth benodol nad oedd cyfleusterau a chyfarpar digonol yn y parciau, sy'n eu gwneud yn llai apelgar ac o bosib yn anniogel i blant.
- I lawer o blant, nid oes mannau chwarae o fewn pellter cerdded neu feicio, sy'n golygu bod gofyn i oedolion eu gyrru yno.
    - Mae 29.03% o ymatebwyr CA2 a 29.33% o ymatebwyr CA3/4 yn dibynnu ar oedolyn i'w cludo i fannau chwarae mewn car.
    - Mae'n werth nodi bod 41% o'r rhieni yn anfodlon ar hygyrchedd mannau agored lleol, a bod llawer o barciau a meysydd chwarae naill ai wedi'u lleoli mewn tref arall neu'n anodd eu cyrraedd heb gar.
- Roedd plant, yn enwedig plant ag anableddau, yn wynebu anawsterau wrth geisio cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae awyr agored oherwydd diffyg mannau chwarae hygyrch.
    - Dywedodd 15% o'r rhieni/gofalwyr ei bod yn anodd i'w plentyn/plant gymryd rhan mewn mathau penodol o weithgareddau, yn bennaf oherwydd anabledd.

**Cyfleoedd**

- Mae cyfle i ehangu parciau a mannau hamdden i gynnwys cyfarpar addas ar gyfer arddegwyr, megis parciau sglefrio, meysydd chwarae antur, a chyrtiau chwaraeon, ac ar gyfer plant ag ADY, megis cyfarpar chwarae cynhwysol sy'n gyfeillgar i'r synhwyrau.

- Mae galw clir am fannau chwarae â gwell dyluniad, sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth eang o oedrannau a galluoedd.
    - Mae awydd cryf i greu mannau pwrpasol lle gall plant hŷn ac arddegwyr dreulio amser yn ddiogel a chymryd rhan mewn gweithgareddau heb deimlo wedi'u cyfyngu.
    - Mae angen mwy o fannau cynhwysol, hygyrch i ddarparu ar gyfer amrywiaeth ehangach o blant, gan gynnwys plant ag anghenion corfforol neu niwroamrywiol.
- Byddai buddsoddi mewn mannau awyr agored o ansawdd uchel ar gyfer chwarae rhydd yn creu mwy o gyfleoedd i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. Yn benodol, mae'r angen am fannau gwyrdd sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n well, gan gynnwys mannau glaswelltog a chaeau agored, wedi cael ei amlygu ar hyd yr ymgynghoriad.
- Datblygu mwy o fannau chwarae dychmygus a seiliedig ar natur, gan gynnwys meysydd byw yn y gwyllt, ysgolion coedwig, a gerddi cymunedol.
- Mae cyfle i gyflwyno camau arafu traffig ger parciau, meysydd chwarae a mannau chwarae poblogaidd er mwyn lleddfu pryderon ynghylch diogelwch traffig.
- Byddai buddsoddi mewn llwybrau cerdded neu feicio diogel a chyfleus, heb beryglon traffig, yn lleihau rhwystrau o ran cyrraedd mannau chwarae.
- Mae cyfle i gynyddu trafnidiaeth gyhoeddus i fannau chwarae a'i hygyrchedd, gan sicrhau bod pob plentyn yn gallu cyrraedd parciau, meysydd chwaraeon, a chanolfannau cymunedol yn hwylus, ble bynnag y byddant yn byw.
- Gallai gwaith cynllunio datblygu lleol elwa o integreiddio mwy o fannau chwarae mewn ardaloedd preswyl, gan sicrhau bod parciau, meysydd chwarae, a chyfleusterau hamdden o fewn pellter cerdded i blant.
    - Mae cyfle i roi sylw i'r bwlch mewn cyfleusterau ar gyfer plant hŷn ac arddegwyr mewn polisïau datblygu lleol trwy gynllunio mwy o glybiau ieuenctid, parciau sglefrio, a mannau cymunedol amlbwrpas.
    - Gallai cynlluniau datblygu lleol ystyried mannau hyblyg y bydd modd eu haddasu wrth i anghenion ieuenctid newid.
    - Dylai cynlluniau datblygu lleol flaenoriaethu hygyrchedd a chynwysoldeb mannau chwarae, yn unol â pholisïau addysg gynhwysol.
- Gallai polisïau addysg a chynlluniau datblygu lleol wella cyfleoedd chwarae ymhellach trwy gyllido a chefnogi rhaglenni ar ôl ysgol, canolfannau cymunedol, a gweithgareddau i ieuenctid.

**Bygythiadau**

- Mae rhai mannau chwarae yn dal mewn cyflwr gwael, gyda phroblemau fel cyfarpar sydd wedi torri, sbwriel, a glaswellt sydd wedi gordyfu yn cael eu hamlygu droeon gan blant a rhieni.
- Gallai cyllid cyfyngedig achosi oedi neu atal gwelliannau i fannau sydd eisoes yn bodoli a datblygiad cyfleusterau newydd, gan gyfyngu ar fynediad plant at ddewisiadau chwarae amrywiol sydd â chyfarpar gwell.

- Dylai'r Cynllun Datblygu Lleol flaenoriaethu mannau chwarae ar gyfer plant hŷn ac arddegwyr, a allai arwain at fylchau parhaus yn y ddarpariaeth i'r grŵp oedran hwn.
- Gallai diffyg cyfleusterau oed-briodol ar gyfer plant hŷn ac arddegwyr arwain at ymddieithrio.
- Mae darpariaeth gyfyngedig o fannau chwarae cynhwysol i blant ag ADY yn golygu bod rhai plant yn wynebu rhwystrau wrth geisio cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.
- Heb gynlluniau datblygu lleol â strategaeth glir i wella cyfleoedd chwarae, gallai'r bylchau yn y ddarpariaeth barhau.
- Mae pryder sylweddol o hyd ynghylch traffig trwm ger mannau chwarae, ynghyd â diffyg llwybrau cerdded a beicio diogel.
- Roedd pryderon am ddiogelwch mewn ardaloedd cyhoeddus yn codi'n aml. Dywedodd plant fod rhyngweithio â grwpiau o ieuenctid hŷn, ymddygiad gwrthgymdeithasol a phresenoldeb dieithriaid yn gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus.
- Mae gweithgareddau cymryd cyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd cyhoeddus yn creu awyrgylch anniogel i blant ac yn cyfyngu ar gyfleoedd iddynt chwarae yn yr awyr agored.
- Mae cysylltiadau trafnidiaeth gwael a lleoliad pellennig rhai mannau chwarae yn cyfyngu ar fynediad annibynnol plant a'u rhyddid i symud.
- Gallai ymgysylltiad cyfyngedig y gymuned â'r ddarpariaeth chwarae a'r broses o wneud penderfyniadau leihau effeithiolrwydd buddsoddiadau yn y dyfodol ac atal cyfatebiaeth ag anghenion plant a theuluoedd lleol.

| **Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth:**<br>**Mater Ch: Y cyfleoedd a ddarperir i chwarae dan oruchwyliaeth**<br>**Mater E: Hyfforddiant gwaith chwarae a datblygu'r gweithlu** |
|---|
| **Beth ddywedodd yr ymatebwyr wrthym:**<br>• Roedd sylwadau gan ddarparwyr a gweithwyr chwarae yn nodi rhwystrau i chwarae a gweithgareddau hamdden oherwydd cost cyfranogi yn gyffredin ar hyd yr ymgyngoriadau.<br>• Mae’r darparwyr chwarae eu hunain yn wynebu rhwystrau oherwydd cyfyngiadau ariannol neu gyfyngiadau amser.<br>• Rhannodd y darparwyr bryderon ynghylch diffyg staff â’r cymwysterau priodol, a’u gallu i recriwtio’n effeithiol.<br>• Eglurodd y darparwyr fod derbyniad da i Teuluoedd yn Gyntaf bob amser a bod eu dull o ddarparu gwybodaeth i deuluoedd yn llwyddiannus. |
| **Cryfderau**<br>• Rhennir cyfleoedd hyfforddi ar draws y sector chwarae. Caiff darparwyr chwarae fynediad atynt, p’un a ydynt yn darparu gofal plant neu beidio.<br>• Mae mentrau cymorth i deuluoedd yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth i alluogi rhieni i helpu eu plant i chwarae a theimlai’r darparwyr fod y gwaith cyfeirio ymlaen yn effeithiol |
| **Gwendidau**<br>• Nid oes digon o dystiolaeth i benderfynu a ydy gweithwyr chwarae mewn darpariaeth anghofrestredig yn gallu cael mynediad at hyfforddiant |
| **Cyfleoedd**<br>• Gallai CBSMT ddatblygu cynllun hyfforddi pwrpasol ar gyfer gweithwyr chwarae mewn lleoliadau anghofrestredig, er mwyn sicrhau mynediad cyfartal iddynt at ddatblygiad proffesiynol<br>• Byddai hyfforddiant â chymhorthdal neu hyfforddiant am ddim trwy fentrau cyllido lleol yn annog cyfranogiad ac yn cynyddu ymwybyddiaeth o’r cyfleoedd sy’n bodoli. |
| **Bygythiadau**<br>• Gallai cyfleoedd cyllido annigonol effeithio ar y gallu i gyflwyno hyfforddiant a mentrau â chymhorthdal. |

**Synergedd polisi, ymgysylltu, eiriolaeth a gwybodaeth:**
**Mater Dd: Mesurau a ddefnyddir i hyrwyddo mynediad at gyfleoedd chwarae, gan gynnwys darparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a digwyddiadau**
**Mater E: Cyfleoedd hyfforddi ar gyfer y gweithlu chwarae**
**Mater F: Lefel ymgysylltu a chyfranogiad cymunedol**
**Mater Ff: I ba raddau y mae polisïau eraill awdurdod lleol yn ystyried yr angen i wella cyfleoedd chwarae i blant**

**Beth ddywedodd yr ymatebwyr wrthym:**

- Gwelwyd ymgysylltu cryf â'r gymuned trwy'r ymgynghoriad
- Roedd y Rhieni a'r Gofalwyr yn fodlon ar yr wybodaeth sydd ar gael yn ôl pob tebyg
- Teimlai'r darparwyr fod ymgysylltu â'r gymuned yn dod yn haws, yn enwedig ers y cyfnod clo. Fodd bynnag, mae amser a chost yn cyfyngu ar gyfleoedd hyfforddiant

**Cryfderau**

- Mae CBSMT yn mynd ati i hyrwyddo a chefnogi digwyddiadau sy'n darparu cyfleoedd chwarae ac mae'r cyngor yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu.
- Mae lefel uchel yr ymgysylltu â'r gymuned yn dangos consensws cyffredinol ynghylch pwysigrwydd chwarae.
- Mae cyfleoedd hyfforddiant yn cael cyhoeddusrwydd ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.
- Mae cydweithio cryf rhwng adrannau CBSMT yn golygu bod anghenion a chyfleoedd chwarae yn ystyriaeth bob amser

**Gwendidau**

- Soniwyd bod cost cyfleoedd hyfforddi yn rhwystr; mae'r darparwyr wedi gofyn am fwy o DPP naill ai gyda'r hwyr neu ar benwythnosau gan fod cyrsiau yn aml yn digwydd yn ystod oriau gwaith.
- Mae cyllid yn effeithio ar allu'r cyngor i ymgysylltu â'r cyfryngau y tu allan i'w brosesau mewnol di-dâl ei hun.

**Cyfleoedd**

- Cynnal lefelau ymgysylltu â'r gymuned a pharhau i greu cymuned agored cefnogol.
- Cynnig hyfforddiant â chymhorthdal y tu allan i oriau i ddarparwyr

**Bygythiadau**

- Bydd diffyg cyllid digonol gan y llywodraeth yn atal ymdrechion yr ALl i gynnig mwy o hyfforddiant â chymhorthdal ac i ymgysylltu â'r cyfryngau am gost. Bydd angen cyllid pellach er mwyn sicrhau bod y lefel uchel o ymgysylltu â'r gymuned yn parhau.